


Geiriau sy'n cael eu cymysgu yn aml



Help! Pa un sy'n gywir?
Maen nhw'n swnio mor debyg.

1.

EI / EU

(a) Defnyddiwch EI wrth sôn am *un peth*:

e.e.

Roedd Geraint yn ei wely.

Mae Delyth yn dathlu ei phen-blwydd heddiw.

Er bod Eirian yn ddiog, mae ei marciau yn dda.

(b) Defnyddiwch EU wrth sôn am *fwy nag un peth*:

e.e.

Mae Olwen a Nia yn eistedd ar eu cadeiriau.

Roedden nhw yn eu ceir drwy'r dydd.

Mae Huw ac Elfed yn eu hystafell.

SYLWCH: 'h' o flaen geiriau sy'n cychwyn efo llafariaid
ar ôl: EI benywaidd - ei hysgol hi,
EIN - ein hysgol ni, EU - eu hysgol nhw.

(c) Rhaid 'sgwennu EI GILYDD bob amser.

e.e.

Rhedodd y plant at ei gilydd.

Mae Eifion a Gareth yn gweld ei gilydd heddiw.

2.

DAU / DWY

(a) Daw **DAU** o flaen geiriau gwrywaidd (fe).

Daw **DWY** o flaen geiriau benywaidd (hi).

e.e.

<u>GWRYWAIDD</u>	<u>BENYWAIDD</u>
Dau ddyn	Dwy ddynes
Dau ddarn	Dwy linell
Dau arbrawf	Dwy stori

(b) Mae dau a dwy yn treiglo'n feddal ar ôl **y** (d > dd)

e.e.

Y dd au ddyn	Y dd wy ddynes
Y dd au ddarn	Y dd wy gerdd

(c) **Sylwch:**

<u>GWRYWAIDD</u>	<u>BENYWAIDD</u>
Dau	Dwy
Tri	Tair
Pedwar	Pedair

e.e.

Tri lle	Tair ceiniog
Pedwar llyfr	Pedair drama

Dwy gath fach



Dau gi bach

3. hwn / hon

(a) Gyda geiriau **gwrywaidd** (fe) rydym yn defnyddio **hwn**, **hwnnw**.

<u>Nawr</u>	<u>Wedi digwydd</u>	<u>Lluosog/Mwy nag un</u>
Y dyn hwn	Y dyn hwnnw	Y dynion hyn
Y drws hwn	Y drws hwnnw	Y drysau hyn
Y tŷ hwn	Y tŷ hwnnw	Y tai hyn

(b) Efo geiriau **benywaidd** (hi) rydym yn defnyddio **hon**, **honno**.

<u>Nawr</u>	<u>Wedi digwydd</u>	<u>Lluosog/Mwy nag un</u>
Y ferch hon	Y ferch honno	Y merched hyn
Y gadair hon	Y gadair honno	Y cadeiriau hyn
Y ffenest hon	Y ffenest honno	Y ffenestri hyn

4.

Ar

A'r

(a) **Ar** = "on" yn Saesneg

e.e. Roedd y gath yn cysgu **ar** y mat.

(b) **A'r** = "and the" yn Saesneg

e.e. Mae'r dyn **a'r** fenyw yn cytuno.

5.

Mae

Mai

(a) **Mae** = "is" yn Saesneg

e.e. **Mae** Dai yn hapus heddiw.

Ar ôl diwrnod caled yn yr ysgol, **mae** hi'n braf cael ymlacio.

(b) **Mai** = "that" yn Saesneg

e.e. Rydw i'n gwybod **mai** fe sydd yna.

Dywedodd Gwen **mai** hi atebodd y cwestiwn yn gywir.

6. | | | |----|-----| | Yw | I'w | |----|-----|

(a) **Yw** = **ydyw / ydy**

(Edrychwch i weld a yw **ydyw/ydy** yn iawn yn lle 'yw' ...)

e.e. Elfed **yw** cariad Gwenllian.

(b) **I'w** = **i + ei / i + eu**

e.e. Aeth John **i'w** gartref.

7. | | | |---|----| | â | ag | |---|----|

(a) **â** = "as, like, with"

e.e. Mae John mor dal **â** pholyn.

Trawodd y bachgen **â** chleadr ei law.

(b) **â** = yn dod ar ôl - *peidio â, peidiwch â, bron â, dod â, mynd â, ymweld â, siarad â, ynglŷn â.*

(c) **ag** = **â** yn troi'n **ag** o flaen geiriau yn cychwyn efo *llafariaid*

e.e. Peidiwch **ag** ysmegu.

Roedd ef wedi cysylltu **ag** aelod o'r cyngor.

8. | | | |----|----| | ac | ag | |----|----|

(a) **ac** = 'and' yn *Saesneg*

e.e. Oddi wrth Sioned **ac** Aled.

(b) **ag** = *gyda*

e.e. Cariodd y blwch **ag** un llaw.

GOCHELWCH!

Nid yw 'tair' yn treiglo ar ôl 'y' a does dim treigladau ar ôl 'tair'.

e.e. y tair stori

✓

y tair merch

✓